Grŵp Trawsbleidiol ar ddatblygu bocsio yng Nghymru
Mehefin 13 2017
Adeilad y Pierhead
Neil McEvoy AC, Mike Hedges AC, Caroline Jones AC, Nick Ramsay AC, Mauricio Sulaiman, Llywydd Cyngor Bocsio'r Byd

Materion a drafodwyd
1) Siaradodd Tony Wynne, Pennaeth Cymdeithas Bocsio Amatur Cymru, am ailddatblygu bocsio amatur yng Nghymru. Ymatebodd Scott Welch drwy siarad am brosiect gofal Cyngor Bocsio'r Byd. Tynnodd sylw at y cymorth y mae'r cyngor bocsio wedi'i roi i focsio amatur.
2) Gofynnodd Dewi Powell o BoxingWales.com am gynigion a fydd yn sicrhau parhad bocsio yng Nghymru a'r DU. Dywedodd swyddog o Fwrdd Rheoli Bocsio Prydain fod bocsio yn y DU ar hyn o bryd yn cyrraedd uchafbwynt a bod darpariaethau wedi cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r dirywiad disgwyliedig.
3) Gofynnodd Mansel Edwards o Glwb Bocsio Amatur y Rhondda am y cymorth y bydd bocswyr ifanc amatur yn ei gael o ran nawdd fel eu bod yn gallu rhoi o'u hamser yn llawn i focsio. Cafodd y sylwadau hyn eu cefnogi gan bawb ar y bwrdd uchaf. Tynnwyd sylw at y ffaith ei bod yn hanfodol i focswyr gael incwm sylfaenol o ryw fath er mwyn iddynt allu cyflawni eu potensial yn llawn.
4) Bu swyddog o Port Talbot Bulldogs yn trafod cynllun y sefydliad a'r gwaith y mae'n ei wneud yn y gymuned i helpu pobl ifanc sydd â phroblemau ddychwelyd i'r gwaith drwy focsio. Cytunodd pawb fod y syniad yn wych ac y dylid ei ddefnyddio yn ehangach ledled Cymru.
5) Diolchodd Neil McEvoy i bawb a oedd yn bresennol wrth gloi'r cyfarfod. Crybwyllwyd y ffaith y bydd y Grŵp Trawsbleidiol yn helpu'r broses o ddatblygu bocsio yn y rhengoedd amatur a phroffesiynol.